# 9.0 YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

## Ffeithiau Allweddol

| |
|---|
| 55 o Henebion Cofrestredig yn yr AHNE, a nifer eraill gerllaw |
| 249 o Adeiladau Rhestredig a nifer yn yr ardaloedd gerllaw |
| 7 adeilad Gradd I, sef yr adeiladau mwyaf arbennig |
| 11 Ardal Cadwraeth yn yr AHNE neu gerllaw |
| 1 Gardd a Pharcdir Cofrestredig – Plas yn Rhiw |
| Rhan fwyaf o'r AHNE o fewn ardal wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru |

## 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Mae'r cysyniad o Amgylchedd Hanesyddol yn eang ac yn cynnwys pob agwedd o ddylanwad dynol o'r cyfnod cyn hanesyddol hyd at heddiw. Mae'n cynnwys olion archeolegol dan y ddaear, gweddillion hen aneddiadau, adeiladau a strwythurau hanesyddol, ffermydd a therfynau caeau, olion chwareli a gweithfeydd yn ogystal a pharciau a gerddi.

9.1.2 Mae olion preswyliaeth pobol yn rhan annatod o dirlun Llŷn ac wedi dylanwadu llawer ar sut mae'r ardal yn edrych erbyn heddiw. Dros y canrifoedd mae gwahanol genedlaethau a charfannau o bobol wedi dylanwadu ar y tirlun i greu amgylchedd hanesyddol gymhleth a diddorol, gyda chymeriad a naws arbennig.

9.1.3 Mae yma lawer o geyrydd o'r cyfnod cyn-hanesyddol, Meini Hirion, Cromlechi, Terfynau Caeau Hanesyddol, Ffynhonnau ac Eglwysi hynafol. Hefyd mae olion chwareli a chloddio mwyn yn amlwg ar y tirlun ac mae pentrefi bychan, bythynnod gwledig a thai fferm hanesyddol yn nodweddiadol o'r ardal. Gyda'i gilydd mae'r holl olion hyn yn cyfrannu at gymeriad unigryw Penrhyn Llŷn.

9.1.4 Oherwydd nad oes llawer o ddatblygu wedi bod yn yr ardal mae llawer o safleoedd hanesyddol wedi goroesi. Mae nifer o gromlechi a meini hirion yn dal i'w gweld yn eu lleoliad gwreiddiol a nodweddion fel cerrig milltir yn dal ar ochrau'r ffyrdd gwledig. Er fod llawer o'r tir wedi ei amaethu a'i wella mae rhannau eang o diroedd comin sydd yn rhostir prin a phatrwm hanesyddol o gaeau bach wedi goroesi mewn rhai ardaloedd fel y Rhiw ac Uwchmynydd.

9.1.5 Mae adeiladau hanesyddol yn bwysig ac yn ddiddorol oherwydd eu bod yn dangos traddodiad adeiladau yr ardal ac yn dangos pensaernïaeth nodweddiadol dros wahanol gyfnodau. Er enghraifft credir yn ôl traddodiad fod rhai o'r bythynnod bychan sydd yn rhan o dirlun Llŷn wedi eu seilio ar "dai unnos". Adeiladwyd y bythynnod yma ar diroedd comin gyda'r deunyddiau oedd agosaf i law, sef pridd, cerrig a thywyrch. Ar y llaw arall roedd tai'r dosbarth uwch yn cael eu codi o gerrig wedi eu trin a llechi gorau - dyma'r tai ffermydd mawr a phlastai bychain. Mae gerddi hanesyddol yn gysylltiedig â rhai o'r plastai er enghraifft Plas yn Rhiw a Phlas Cefnamwlch.

9.1.6 Mae'r adeiladau hanesyddol pwysicaf yn cael eu rhestru gan Cadw i ddosbarth Gradd I, II* neu II. Ystyrir adeiladau Gradd I a Gradd II* fel rhai pwysig yn genedlaethol tra ystyrir rhai Gradd II yn werthfawr ar lefel ranbarthol. Penderfynodd Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth gyda Cadw gomisiynu arolwg manwl o'r holl adeiladau rhestredig yn y sir yn 2003 (ac eithrio ardal y Parc Cenedlaethol). Fel rhan o'r astudiaeth fe ymwelwyd â phob adeilad rhestredig yn ardal Cyngor Gwynedd. Tynnwyd lluniau, aseswyd cyflwr a nodwyd defnydd presennol pob adeilad. Roedd adeiladau yn cael eu sgorio ar sail eu cyflwr gan asesu materion megis cyflwr waliau, to, drysau, offer cario dŵr.

9.1.7 Gwnaed Arolwg gan Cwmni Handley yn 2007 mae gwybodaeth fanwl, drylwyr a diweddar ar gael am adeiladau a strwythurau rhestredig, sef yr adeiladau hanesyddol pwysicaf. Mae'r wybodaeth yn cael ei chrynhoi ar ffurf tabl (gweler yr Atodiad) sydd yn cyfeirio at y nifer, gradd a chyflwr yn ôl canlyniadau Arolwg a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gwynedd.

9.1.8 Mae llawer o adeiladau hanesyddol – fel y ffermdai, adeiladau amaethyddol, eglwysi a chapeli yn parhau i gael eu defnyddio er mae rhai yn segur ac yn dadfeilio. Mae'n bwysig anelu i gynnal a chadw adeiladau hanesyddol a chynnal eu cymeriad arbennig – boed yn adeiladau unigol neu glwstwr o adeiladau fel canol pentrefi.

9.1.9 Mae olion archeolegol a hanesyddol yn bwysig am eu bod yn brawf ac yn gofnod o sut roedd cenedlaethau'r gorffennol yn byw a gweithio. Mae'r olion yn fodd i gysylltu'r gorffennol a'r presennol a dangos sut roedd ein cyndeidiau yn byw. Gall olion hanesyddol fod yn adnodd addysgol cryf a byw ar gyfer plant, pobol leol ac ymwelwyr i'r ardal. O'u cyflwyno mewn ffordd effeithiol bydd yr adnoddau hyn a gwybodaeth amdanynt yn creu ac ennyn diddordeb.

9.1.10 Mae Llŷn ac Ynys Enlli yn un o 36 o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru ar y Gofrestr a baratowyd gan Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS (Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd Hanesyddol). Cafodd ardal Llŷn ei chynnwys ar y Gofrestr oherwydd bod yma lawer o olion bychan o wahanol gyfnodau sydd yn dangos dilyniant a datblygiad dros amser. Mae ardal Llŷn i gyd (i'r gorllewin o ffordd yr A499 – Pwllheli – Trefor) wedi ei gynnwys ar y Gofrestr sydd yn nodi: "mae yma gyfoeth ac amrywiaeth mawr a digyffelyb, ran amlaf o nodweddion archeolegol a hanesyddol ar raddfa lai, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio cyfanrwydd cydlynol ac integreiddiedig, gan arddangos parhad ac undod tiriogaethol Llŷn ers efallai adegau cynhanesyddol."

9.1.11 Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi ymgymryd â gwaith o ran asesu cymeriad hanesyddol gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd. Pwrpas y gwaith yw adnabod nodweddion pwysicaf a chymeriad hanesyddol penodol y gwahanol ardaloedd a gosod argymhellion ar gyfer rheolaeth yn y dyfodol. Mae'r astudiaeth yn crynhoi cymeriad hanesyddol ardal Llŷn yn effeithiol dan nifer o themâu, hefyd mae 22 is-ardal o wahanol gymeriad tirwedd hanesyddol wedi eu diffinio a dadansoddiad ohonynt ar sail hanes, ffurfiau tirlun a phrosesau allweddol. Gellir cael gwybodaeth fanwl ar safle we

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (www.heneb.co.uk ).

9.1.12 Cadw sydd yn gyfrifol am warchodaeth yr adnoddau hanesyddol pwysicaf yng Nghymru. Dynodir yr olion hanesyddol pwysicaf yn Henebion Rhestredig ac maent yn derbyn gwarchodaeth yn sgil hynny. Mae'r Henebion hyn yn cael eu gwarchod o dan y Ddeddf Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol 1979 ac mae'n drosedd gyfreithiol i amharu ar y safleoedd neu cario unrhyw ddeunyddiau oddi yno. Mae Cadw hefyd yn gyfrifol am asesu cyflwr yr Henebion Rhestredig. Yn ogystal mae Cadw yn gyfrifol am rhestru adeiladau a strwythurau ar sail eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig yn ôl eu pwysigrwydd (Graddfa I II* II). Y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) sy'n gyfrifol am ymchwilio a cofnodi archaeoleg, adeiladau, tirweddau ac olion arforol o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw.

9.1.13 Mae'r Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gosod fframwaith er mwyn rheoli yr amgylchedd hanesyddol mewn dull positif. Rhoddir arweiniad polisi ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru gan Llywodraeth Cymru hefyd yn Polisi Cynllunio Cymru (Pennod 6) ac yn Nodyn Polisi Technegol 24. Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu sydd yn cynnwys polisïau cynllunio ar gynnal a gwarchod agweddau o'r amgylchedd hanesyddol.

9.1.14 Nid oes gwasanaeth Archeolegol yng Nghyngor Gwynedd bellach, yn hytrach darperir cyngor ar faterion archeolegol ar draws y rhanbarth gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (trwy Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd) Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gynnal y Gofrestr Amgylchedd Hanesyddol ranbarthol (CAH/ "HER" – sef cofnod statudol o holl olion hanesyddol/ archeolegol yn yr ardal) ac am ddarparu gwybodaeth ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol a lleol, gweithredwyr statudol, datblygwyr a'r cyhoedd yn benodol o ran materion cynllunio a chadwraeth. Gellir cael mynediad cyhoeddus at y Gofrestr trwy www.cofiadurcahcymru.org.uk/arch/. Dylai ymholiadau, gwybodaeth neu geisiadau am wybodaeth gael eu cyfeirio yn syth at Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Gwynedd a'r Gofrestr.

9.1.15 Gall Cynghorau Lleol ddynodi Ardaloedd Cadwraeth dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 os ydi ardal o "werth pensaernïol neu hanesyddol arbennig" lle byddai yn ddymunol i "gynnal neu wella eu cymeriad a'u hedrychiad". Gall ansawdd arbennig yr ardal ddeillio o gyfuniad o amryw o ffactorau megis grŵp o adeiladau, patrymau strydoedd gwahanol, llecynnau agored, nodweddion adeiladau a nodweddion o ran y tirwedd.

9.1.16 Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dirfeddiannwr pwysig yn yr ardal (yn cynnwys nifer o safleoedd ac adeiladau hanesyddol pwysig fel Plas yn Rhiw a Phorthdinllaen). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal a chadw yr eiddo yn dda ac yn cyflogi penseiri a swyddogion cadwraeth.

9.1.17 Sefydlwyd Cymdeithas Hanes ac Archaeoleg Llŷn rai blynyddoedd yn ôl ond yn anffodus nid yw'r Gymdeithas wedi bod yn weithredol yn ddiweddar ac nid

oes grŵp cadwraeth amgylchedd hanesyddol arall yn Llŷn. Fodd bynnag mae gan Gyfeillion Llŷn, a sefydlwyd i gynnal a datblygu iaith a diwylliant yr ardal, gyfle i ehangu i'r maes o gadwraeth amgylchedd hanesyddol.

9.1.18 At bwrpas y Cynllun Rheoli gosodwyd y Brif Nod ganlynol o ran yr Amgylchedd Hanesyddol:

**Prif Nod**

| |
|---|
| **CYNNAL A GWELLA CYFLWR YR AMRYWIAETH O ADNODDAU SY'N RHAN O AMGYLCHEDD HANESYDDOL LLŶN GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR ANGEN I WARCHOD BUDDIANNAU CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU AR SAFLEOEDD DYNODEDIG RHYNGWLADOL.** |

## Nodweddion Arbennig

### 9.2 Y Cyfnod Cyn-hanesyddol

9.2.1 O ystyried y cyfnod sylweddol o amser sydd wedi bod mae'n rhyfeddol fod cymaint o olion a henebion wedi goroesi. Mae nifer o henebion a chreiriau wedi eu darganfod a'u gwarchod - mae nifer o greiriau o Lŷn yn cael eu cadw yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Dyma ychydig o wybodaeth am gefndir archeolegol yr ardal a'r olion a chreiriau sydd wedi eu darganfod yn ardal Llŷn:

9.2.2 **Yr Oes Fesolithig** (c.10,000 – 4,000 C.C) – Daeth yr Oes yr Iâ ddiweddaraf yn hanes y byd i ben tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl oherwydd fod hinsawdd y byd yn cynhesu a bu i hyn achosi i haenau o rew i ddadmer a lefel y môr i godi. Cafodd Prydain ei hynysu oddi wrth weddill cyfandir Ewrop a bu i'r boblogaeth Fesolithig fanteisio ar eu hamgylchedd arfordirol, ac maent wedi gadael olion o'u tiriogaeth. Pobol symudol oeddent yn hela a chasglu ac felly nid ydynt wedi gadael unrhyw strwythurau na henebion sylweddol. Cynhyrchwyd llawer o gelfi ac arfau o fflint a "chert" a cherrig eraill yn ystod y cyfnod ac mae tystiolaeth o safleoedd gweithio gyda naddion cerrig, fflintiau a "debitage" yn ogystal â thomennydd o ddeunydd a chregyn ("middens"). Mae safleoedd fel hyn yn aml yn cael eu darganfod yn sgil erydiad arfordirol oherwydd mae'n debyg fod y rhan fwyaf o anheddau o'r cyfnod Mesolithig ar hyd yr arfordir neu ar ochrau dyffrynnoedd er manteisio ar y pysgod a'r dŵr fel ffordd o deithio a chyfathrebu.

9.2.3 **Yr Oes Neolithig** (c. 4,000 - 2,000 CC) - Mae'r henebion cynharaf ar dirlun Llŷn yn cynnwys siambrau claddu (megis Tan y Muriau, Rhiw a Bachwen ger Clynnog) a meini hirion sydd yn tystiolaethu arferion claddu cenedlaethau'r cyfnod. Roedd llawer o'r henebion hyn yn parhau i fod yn arwyddocaol mewn cyfnodau diweddarach ac roeddent yn ganolbwynt gweithgareddau yn ystod yr Oes Efydd ac Oes yr Haearn. Hefyd o bwysigrwydd sylweddol mae olion ffatri fwyelli ar Fynydd y Rhiw. Mae'r ffatri fwyelli yn brawf o sut roedd pobol yr oes Neolithig yn defnyddio adnoddau naturiol a chreu arfau gan eu masnachu dros ardal eang.

9.2.4 **Yr Oes Efydd** (c. 2500 – 600 BC) – Y carneddau sydd ar ben mynyddoedd Carnguwch, Yr Eifl a Mynydd y Rhiw ag yn y gaer yn Nhre'r Ceiri yw'r henebion amlycaf o'r cyfnod yma. Nodwedd amlwg o'r cyfnod hefyd yw'r meini hirion sy'n niferus trwy'r ardal. Mae carneddau cerrig o'r cyfnod hwn wedi goroesi ond yn aml yr unig olion a welir o siambrau pridd yw cylchoedd o edrych i lawr o'r awyr. Mae claddedigaethau wrn o'r cyfnod hwn wedi eu darganfod yn Foel Mellteyrn, Morfa Nefyn a ger Bodfel.

9.2.5 Credir hefyd fod llawer o safleoedd anheddol a gwarchodol yr ucheldir, sydd yn cael eu dyddio i Oes yr Haearn, wedi eu sefydlu yng nghyfnod yr Oes Efydd. Nid oes dealltwriaeth dda o sefydliadau ar yr iseldir ond mae darganfyddiadau diweddar o dociau llosgi ("burnt mounds") o'r cyfnod hwn yn awgrymu sefydliadau domestig. Mae tociau llosgi yn dystiolaeth o bobol yn cynhesu cafnau o ddŵr gan ddefnyddio cerrig poeth a gallai'r dechneg fod yn rhan o goginio bwyd neu efallai fragu cwrw neu hyd yn oed baddonau neu "saunas".

9.2.6 **Oes yr Haearn** – mae tystiolaeth glir o'r cyfnod hwn i'w weld yn yr ardal, yn fwyaf amlwg y bryngaerau gwych yn Nhre'r Ceiri, ar Garn Boduan, Garn Fadrun a Chastell Odo ar Fynydd yr Ystum. Mae bryngaerau eraill llai eu maint hefyd megis Pen y Gaer, Llanaelhaearn. Safleoedd amddiffynnol oedd 'rhain ond roeddent hefyd yn ganolfannau gweinyddol lle roedd pobol yn byw mewn cartrefi crynion (a elwir weithiau yn gytiau Gwyddelod). Mae safleoedd eraill, nad oedd yn rhai amddiffynnol, ac yn cynnwys tystiolaeth o batrwm caeau mwy diweddar fel Mynydd Anelog, Carnguwch a safle uwchben Clynnog. Ceir gwybodaeth fanwl am yr olion a'r darganfyddiadau o'r cyfnod hwn yn Atlas Sir Gaernarfon a gyhoeddwyd yn 1977.

9.2.7 Nid oes gwybodaeth am unrhyw olion o'r **cyfnod Rhufeinig** yn Llŷn sy'n awgrymu na chawsant ddylanwad cryf dros yr ardal ond mae olion o'r **Cyfnod Cristnogol** cynnar**-** a dreiddiodd drwy Lŷn o'r bumed ganrif ymlaen. Mae nifer o gerrig ac arnynt ysgrifau Lladin o'r cyfnod hwn wedi eu darganfod ac mae ysgrifen tebyg i Gymraeg cynnar ar rai ohonynt. Cerrig beddi neu gerrig coffa oedd llawer o'r rhain ac mae'r ysgrif 'HIC IACIT' wedi ei nodi arnynt (sef Yma Gorwedda…). Dydi'r rhan fwyaf o'r rhain ddim yn eu lleoliad gwreiddiol – rhai wedi eu cynnwys fel rhan o strwythurau diweddarach fel waliau mynwentydd neu wedi eu gosod ar i fyny fel meini hirion. Cerrig i goffau gwŷr enwog oedd y rhain fwyaf tebyg. Yr enghreifftiau amlycaf yn Llŷn yw'r cerrig gydag enwau offeiriad (yn fwyaf tebygol) sef VERACIVS a SENACVS a ddarganfuwyd ger Capel Anelog, Uwchmynydd (bellach yn Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron) a'r garreg a ddarganfyddwyd yn Llangian - "MELI MEDICI" - yn cyfeirio at Melus y Meddyg.

9.2.8 Yn sgil ymlediad Cristnogaeth sefydlwyd ysgolion hyfforddi, eglwysi bach (llan) a chelloedd meudwyaidd a datblygodd rhai o'r rhain yn safleoedd eglwysig amlwg megis Clynnog Fawr ac Aberdaron. Enwyd nifer o'r safleoedd cynnar hyn ar ôl Seintiau Celtaidd megis Beuno, Hywyn, Aelhaearn a Cwyfan. Datblygodd nifer o eglwysi arfordirol megis Pistyll a Llanengan yn fannau gorffwys i'r pererinion a ddechreuodd teithio i Enlli o'r 6ed ganrif ymlaen. Bu cyfnod o wella ac ail adeiladu eglwysi yn y bymthegfed ganrif ac

eto yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

9.2.9 Mae amryw o ffynhonnau hynafol o amgylch Penrhyn Llŷn, rhai yn dyddio yn ôl i'r o gyfnod Cyn-Gristnogol ac yn tystio ble roedd safleoedd sanctaidd ein cyndadau paganaidd. Yn ddiweddarach daeth nifer o'r ffynhonnau yn fannau Cristnogol pwysig ac roedd cred fod rhinweddau iachaol arbennig yn perthyn i lawer ohonynt megis Ffynnon Aelrhiw, Ffynnon Aelhaearn a Ffynnon Fyw. Mae llawer o'r hen ffynhonnau wedi goroesi, fel y dangosodd gwaith ymchwil i'r Gwasanaeth AHNE yn 2004-05 ac mae gwelliannau wedi eu gwneud i nifer ohonynt.

## 9.3 Y Cyfnod Canoloesol (5ed-15fed Ganrif)

9.3.1 Gelir dweud gyda llawer o sicrwydd mai adeiladau o bren oedd eglwysi cynnar Llŷn. Mae'r dystiolaeth cynharaf o ddefnyddio cerrig i'w hadeiladu yn dyddio o'r 12fed ganrif. Yr esiampl gorau yw mynedfa bwa Romanesque Eglwys Aberdaron, er ei fod wedi ei addasu dros y blynyddoedd, a hefyd Eglwys Pistyll. Mae'r rhan fwyaf o'r eglwysi eraill arwyddocaol yn Llŷn hefyd yn dyddio yn ôl i'r cyfnod hwn, er mai ychydig o olion sydd wedi goroesi o'r safleoedd eglwysig cynnar hyn. Fodd bynnag, rhwng y 12fed a dechrau'r 16eg Ganrif daeth eglwysi wedi eu hadeiladu o gerrig yn nodwedd amlwg o'r tirlun gyda ehangiad sylweddol tua 1500. Cafodd nifer o eglwysi bychan, syml fel Llaniestyn, Llanengan, Abererch ac Aberdaron eu hymestyn a'u gwella.

9.3.2 Mae'r terfynau caeau hanesyddol yn nodwedd pwysig sydd yn dangos patrwm o amaethu'r gorffennol ac mae llawer ohonynt yn dyddio yn ôl i'r cyfnod hwn. Maent yn cyfrannu llawer tuag at edrychiad y tirlun ac maent yn rhan o dreftadaeth a diwylliant yr ardal hefyd. Er bod llawer o'r hen derfynau cynnar wedi diflannu dros amser mae patrwm caeau hanesyddol Llŷn wedi goroesi yn dda mewn rhai ardaloedd ac yn arbennig rhan orllewinol y Penrhyn a gellir gweld y terfynau a'r patrwm a grëir yn glir o ben Uwchmynydd.

9.3.3 Y dulliau traddodiadol o greu terfyn yn Llŷn yw cloddiau cerrig a phridd, gwrychoedd a waliau cerrig sychion. Cloddiau pridd a cherrig yw'r dull mwyaf cyffredin o'r rhain ar y penrhyn ac mae iddynt gymeriad lleol arbennig gan fod y cerrig fel arfer yn rhedeg ar i fyny. Mae gwrychoedd ar ben rhai o'r cloddiau hyn tra mae eraill yn foel. Maent yn ddull effeithiol o greu terfyn a rhoi cysgod i stoc ond maent hefyd yn ecolegol bwysig drwy ffurfio cynefin i amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion, pryfetach ac adar.

9.3.4 Mae'r waliau cerrig yn gyffredin iawn yn y rhannau o'r AHNE lle'r oedd digonedd o gerrig ar gael, sef llethrau yr ymwthiadau igneaidd sy'n britho'r ardal : Bwlch Mawr, Gyrn Ddu, Yr Eifl, Mynydd Carnguwch, Mynydd Nefyn, Garn Fadrun a Mynydd Rhiw. Maent yn waliau cadarn, hyd at 5-6 troedfedd o uchder a hyd at 3-4 troedfedd o led mewn rhai mannau (mae waliau llydan iawn yn ardal y Rhiw). Tynnwyd rhai o'r waliau cerrig i lawr dros gyfnod o amser, rhan amlaf ar lethrau isaf y bryniau lle bu ymdrechion i wella tiroedd a chael caeau mwy. Dull arall o gau tir yw gwrychoedd ond nid yw'r rhain mor gyffredin yn Llŷn. Mae gwrychoedd yn bwysig ar sail weledol, hanesyddol ac

hefyd fel cynefin.

9.3.5 O edrych ar fapiau hanesyddol mae'n amlwg fod llawer o derfynau caeau wedi eu dymchwel i wneud caeau mwy. Nid oedd gwybodaeth am y nifer o waliau cerrig, cloddiau na gwrychoedd yn AHNE Llŷn wrth adolygu'r Cynllun Rheoli ond yn gyffredinol mae dirywiad wedi bod ac mae rhai rhannau wedi eu colli yn llwyr. Ar y llaw arall mae gwelliannau mewn rhai mannau oherwydd cynlluniau amaeth amgylcheddol yn rhoi cymhorthdal i adfer cloddiau, waliau a gwrychoedd e.e. Ardal Amgylchedd Arbennig, Tir Cynnal, Tir Gofal a Phrosiect Gweithredu Natur Gwynedd.

9.3.6 Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r nodweddion hyn trwy Arolwg Cloddiau Pen Llŷn, Cyngor Gwynedd, 2007. Roedd yr Arolwg yn canolbwyntio ar ran gorllewinol o Benrhyn Llŷn (yn fras o drwyn Cwmistir i lawr at gongl orllewinol Porth Neigwl). Dengys yr Arolwg fod dwysedd uchel o gloddiau yn yr ardal dan sylw - dyma oedd tua 60% o derfynau, roedd gwrychoedd yn ffurfio tua 29%, waliau sychion 6% ac roedd yn ymddangos mai terfynau wedi dadfeilio oedd tua 2%. Roedd yn amhosibl diffinio tua 4% o derfynau.

9.3.7 Edrychodd yr Arolwg yn fras ar ddwysedd caeau yn yr ardal hefyd a chymharu rhai mannau gyda'r sefyllfa yn 1953. Dangosodd y gwaith fod dwysedd (nifer) y caeau mewn rhai ardaloedd wedi lleihau'n sylweddol mewn hanner can mlynedd - sydd yn dangos hefyd fod llawer o derfynau wedi eu colli. Gweler yr Astudiaeth am wybodaeth fanylach.

## 9.4 Y Cyfnod Ôl – Ganoloesol (1500-1800)

9.4.1 **Eglwysi a Chapeli cynnar -** Yn sgil datblygiad Anghydffurfiaeth yn Llŷn o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen, dechreuwyd adeiladu capeli'r gwahanol enwadau. Adeiladwyd capel cyntaf yr annibynwyr, sef Capel Newydd Nanhoron yn 1769. Mae'r capel hynod hwn yn sefyll hyd heddiw ac wedi ei restru fel adeilad Gradd 1 oherwydd ei gyflwr gwreiddiol a'r faith ei fod yn un o'r capeli anghydffurfiol cynharaf yng ngogledd Cymru. Codwyd y capeli Methodistaidd cyntaf yn yr ardal yn Bryncroes yn 1752 ac Uwchmynydd (1774). Codwyd capeli gan nifer o enwadau eraill hefyd megis y Bedyddwyr tua diwedd y cyfnod hwn ac mae rhai o'r rhain yn dal i sefyll hyd heddiw.

9.4.2 **Cartrefi yr Uchelwyr -** Roedd yr Uchelwyr yn rhan bwysig o gymdeithas Cymru rhwng 1300 a 1700. Roedd rhain yn hen deuluoedd, rhai gyda chysylltiadau gyda'r tywysogion. Roeddent yn berchen ar diroedd a chyfoeth ac roeddent yn cyflogi gweision ac yn noddi beirdd. Cafodd llawer ohonynt swyddi fel ynadon heddwch a siryfion ac roedd eraill fel esgobion neu archesgobion yn yr Eglwys.

9.4.3 Adeiladodd rhai o'r Uchelwyr hyn gartrefi mawr a moethus ac mae llawer yn parhau hyd heddiw – lefydd fel Castellmarch, Bodfel, Bodwrda, Rhydolion, Carreg a Thrygarn. Mae rhai yn anffodus wedi eu colli hefyd fel Madryn, Penarth a Saethon.

9.4.5 **Bythynnod a Thai** – Codwyd llawr o fythynnod syml yn y cyfnod hwn – rhai o fwd, rhai'n gerrig neu gyfuniad o'r ddau. Tai syml iawn oeddent hefo un ystafell, croglofft a tho gwellt. Tai'r bobl gyffredin - y tyddynwyr oedd y rhain a godwyd mewn dull syml mewn dim o dro. Mae llawer o fythynnod o'r cyfnod hwn wedi eu dymchwel neu wedi eu haddasu'n sylweddol ond mae rhai enghreifftiau da yn parhau a nifer wedi eu rhestru gan Cadw. Mae rhai tai deulawr sy'n ychydig yn fwy o'r cyfnod hwn yn parhau hefyd – tai fferm syml neu dai unigolion mwy ariannog.

9.4.6 **Porthladdoedd Bychain** - Datblygwyd porthladdoedd bychain mewn nifer o fannau ar arfordir Llŷn yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed. Byddai cynnyrch amaethyddol yn cael ei allforio trwy'r porthladdoedd a mewnforid nwyddau megis pupur, lliain, llestri, finegr ac ati. Mae ychydig o olion o'r cyfnod hwn wedi goroesi e.e. yr hen forglawdd ym Mhorthdinllaen.

## 9.5 Y Cyfnod Diwydiannol/ Modern (1800 -)

9.5.1 **Chwarelydda** - Datblygwyd llawer o chwareli gwenithfaen yn yr ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y prif rai oedd Gyrn Ddu, Yr Eifl (Trefor), Porth y Nant, Cae'r Nant, Carreg y Llam, Gwylwyr (Nefyn) a Thir y Cwmwd (Llanbedrog). Mae'r chwareli hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad unigryw Llŷn. Nid yn unig mae olion y chwareli eu hunain a'r gweithfeydd oedd ynghlwm â hwynt ond gellir gweld olion incleins, llwyfannau a dociau ar gyfer allforio yn eglur hyd heddiw. Datblygwyd pentrefi gerllaw rhai o'r chwareli megis Trefor, Llithfaen a Nant Gwrtheyrn.

9.5.2 Y chwareli ithfaen a ddarparodd y cerrig ar gyfer llawer iawn o adeiladau yn Llŷn yn y cyfnod yma ac mae'r rhan fwyaf o adeiladau traddodiadol yr ardal wedi eu hadeiladu o garreg ithfaen lleol. Cafodd llawer o'r ithfaen hefyd eu naddu'n gerrig sets a'u hallforio i ddinasoedd diwydiannol gogledd orllewin Lloegr, yn fwyaf amlwg Lerpwl a Manceinion. Mae nifer o lyfrau yn cyfeirio at y chwareli ithfaen a cheir gwybodaeth ar safleoedd gwe fel Penllyn.com a Rhiw.com.

9.5.3 **Mwyngloddio** - Mae tystiolaeth o fwyngloddio ar rai safleoedd yn Llŷn o ddiwedd cyfnod y Tuduriaid gyda phrysurdeb cynyddol o tua 1760 ymlaen. Pan oedd y diwydiant cloddio mwynau yn ei anterth cloddiwyd plwm, copr a sinc yn yr ardal gan gyflogi hyd at 200 o weithwyr. Hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd llawer o gloddio plwm ger Bwlchtocyn ac mae llawer o olion i'w gweld hyd heddiw megis yr hen gorn gwaith yn Llanengan a hen adeiladau.

9.5.4 Daethpwyd yn ymwybodol fod manganîs yn ardal Rhiw yn 1840 a dechreuwyd ar y gwaith o'i gloddio, ar raddfa fechan, yn 1858. Roedd dwy safle benodol sef Benallt a Nant y Gadwen a bu cyfnodau o brysurdeb a chyfnodau tawlech o ran cloddio a chyflogaeth. Bu gweithio prysur yn Rhiw yn ystod y ddau Ryfel Byd oherwydd roedd galw am y manganîs i wneud haearn yn fwy gwydn. Yn Ysgo fe welir olion y cyfarpar a ddefnyddid i gario'r deunydd at y môr hyd heddiw. Daeth y gwaith i ben yn y 1940au ac nid oes unrhyw waith cloddio mwynau bellach yn Llŷn.

9.5.5 **Tai Fferm ac Adeiladau Amaethyddol** - Oherwydd bod Llŷn yn ardal gyda thraddodiad amaethyddol cryf mae'n naturiol fod nifer helaeth o dai fferm, yn ogystal ag adeiladau amaethyddol, yn hanesyddol bwysig. Mae rhai tai fferm bychan tra mae eraill yn sylweddol gyda chysylltiad â theuluoedd o uchelwyr amlwg Llŷn megis Bodwrdda, Carreg, Meillionnydd, Castellmarch, Bodnithoedd ac Elernion. Datblygwyd llawer o dai fferm ac adeiladau gan y Stadau megis Glynllifon, Nanhoron a'r Faenol ac roeddent wedi eu dylunio ar batrwm penodol, er enghraifft gydag adeiladau allanol o amgylch yr iard. Hefyd mae gweddillion dwy felin wynt yn sefyll hyd heddiw ger Bryn Felin, Llanengan ar Foel Fawr, Mynytho - mae'r rhain wedi eu rhestru gan Cadw (Gradd II).

9.5.6 **Cau'r Tiroedd Comin** - Yn gynnar yn y cyfnod hwn (1800 – 1850) cafodd rhannau sylweddol o diroedd comin eu hawlio gan dirfeddianwyr mawr mewn ardaloedd fel Rhoshirwaun, Aberdaron, Llanbedrog, Llaniestyn and Pistyll. Oherwydd creu'r tiroedd hyn, gan rai fel Assheton-Smith a Syr Watkin Williams-Wynn, adeiladwyd waliau cerrig mewn llinellau sythion ac mae'n rhai yn dal i sefyll hyd heddiw. Roedd cryn wrthwynebiad i gau'r tiroedd comin.

9.5.7 **Porthladdoedd ac Adeiladu Llongau -** Roedd glo, defnyddiau a chynnyrch yn cael eu mewnforio i nifer o borthladdoedd bach Llŷn yn ystod y cyfnod hwn. Mae iardiau glo, neu olion iardiau i'w gweld mewn nifer o fannau hyd heddiw megis Porth Ysgaden, Porthor ac Aberdaron. Datblygwyd odynau calch ger rhai o'r porthladdoedd hyn ac mae olion i'w gweld mewn nifer o fannau megis Abersoch a Phorth Ysgaden.

9.5.8 Er mwyn gwasanaethu'r diwydiant morol datblygwyd glanfeydd megis ar gyfer allforio cerrig ithfaen yn Nhrefor, Porth y Nant a Charreg y Llam ac ym Mhorth Neigwl a Phorth Ysgo ar gyfer llongau oedd yn cario manganîs o ardal y Rhiw. Mae olion rhai o'r strwythurau pren yma i'w gweld ar y traethau o hyd.

9.5.9 **Adeiladau Crefyddol** - Roedd rhai capeli anghydffurfiol wedi eu codi yn y Ddeunawfed ganrif fel y nodwyd ond cynyddodd graddfa'r adeiladau a'r ehangu/ ail-adeiladu yn sylweddol o 1800 ymlaen ac mae llawer o'r adeiladau hyn i'w gweld hyd a lled yr ardal hyd heddiw. Ond o ganol y yr Ugeinfed daeth tro ar fyd a dechreuodd y cynulleidfaoedd edwino ac o tua'r 1980au ymlaen gwelwyd capeli ac eglwysi yn cau ac mae'r tueddiad hwn wedi parhau. Erbyn heddiw mae llawer o gapeli ac eglwysi wedi cau, nifer wedi eu dymchwel a nifer cynyddol yn cael eu haddasu ar gyfer defnydd arall.

9.5.10 **Trafnidiaeth -** Roedd llawer mwy o drafnidiaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen a gwelwyd adeiladu a gwella ffyrdd oedd yn cynnwys codi pontydd (e.e. pont Aberdaron, pont Edern) a gosod cherrig milltir a welir ar lawr o ffyrdd yr ardal. Mae'r strwythurau hyn yn cyfrannu yn sylweddol at naws lleol yr amgylchedd gwledig a hanesyddol. Yn anffodus mae rhai damweiniau yn amharu ar y strwythurau hyn e.e loriau llydan a pheiriannau torri cloddiau mecanyddol.

9.5.11 **Pentrefi, Stadau a Chartrefi -** Mae pentrefi hanesyddol a thraddodiadol a ffurfir gan grŵp o adeiladau hanesyddol hefyd yn rhan bwysig o'r etifeddiaeth adeiledig ardal Llŷn. Gellir dweud fod pentrefi'r AHNE yn perthyn i dri chategori: pentrefi arfordirol, pentrefi gwledig a phentrefi chwarelyddol fel Trefor, nant Gwrtheyrn a Phistyll.

9.5.12 Oherwydd natur bellennig Llŷn mae newid a datblygiad wedi bod yn araf ac mae hyn wedi bod o fudd i gynnal cymeriad pentrefi traddodiadol. Mae newidiadau wedi bod ym mhob pentref dros amser ond mae newidiadau mawr wedi bod mewn rhai pentrefi glan y môr fel Abersoch a Morfa Nefyn.

9.5.13 Mae'r Awdurdod Lleol wedi dynodi cyfanswm o 11 Ardal Cadwraeth yn, neu gerllaw, ardal yr AHNE - Aberdaron, Clynnog, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llanengan, Llangian, Llaniestyn, Nefyn, Porthdinllaen, Trefor, ac Ynys Enlli. Bu i gwmni "Building Design Partnership" (BDP) wneud nifer o argymhellion o ran yr Ardaloedd Cadwraeth mewn adroddiad a baratowyd yn 2003 a bu i'r Gwasanaeth AHNE gomisiynu gwaith pellach yn gwerthuso a chynnig gwelliannau yn 2015.

9.5.14 Codwyd nifer o blastai yn y cyfnod hwn - dyma gartrefi sylweddol wedi eu hadeiladu ar fel rhan o Stadau pwysig yn yr ardal. Rhai amlycaf sydd oddi mewn neu'n agos at ffin yr AHNE yw Plas yn Rhiw, Plas Glyn y Weddw, Plas Nanhoron, Plas Cefnamwlch a Phlas Boduan.

9.5.15 Codwyd llawer o dai eraill yn y cyfnod hefyd ac mae llawer o rai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn rhai nodweddiadol o'r cyfnod hwn – tai deulawr, blaen cymesur a tho llechi. Yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif gwelwyd dyluniadau mwy amrywiol a thai unllawr yn dod yn fwy cyffredin yn enwedig yn rhan olaf y ganrif.

9.5.16 **Olion Milwrol -** Dechreuwyd adeiladu maes awyr Porth Neigwl yn 1936 ar ôl prynu saith fferm, y bae a saith milltir o draeth. Crëwyd targedau gyda chynfasau ar gyfer ymarfer saethu a rafftiau allan yn y bae ar gyfer ymarfer bomio. Erbyn dechrau'r 1940au roedd y llain lanio o laswellt wedi ei ymestyn ac roedd hangers "Bellman" a llain concrit cysylltiol wedi eu hadeiladu. Hefyd adeiladwyd rheilffordd ar gyfer targed symudol yn y cyfnod hwn. Cafodd y maes awyr ei gau yn 1945 a chafodd y strwythurau eu dymchwel yn 1947 er fod rhai strwythurau, fel "pillboxes" a "gun emplacements" wedi goroesi.

9.5.17 Mae rhai safleoedd lle bu damweiniau awyrennau yr Ail Ryfel Byd hefyd yn yr AHNE. Damweiniau yn ymwneud ag ymarfer oedd rhain yn bennaf – ar hyd yr arfordir ac o amgylch y mynyddoedd. Un safle enwog yw honno ar ochrau

Tre’r Ceiri lle bu i awyren ‘Halifax’ daro’r creigiau.

9.5.18 Mae safleoedd milwrol eraill yn agos i ffin yr AHNE, yn benodol gweddillion yr hen ysgol peilotiaid ym Mhenyberth, Penrhos a’r camp Radar yn Glanrhyd ger Edern.

**Materion Allweddol**

### 9.6 Erydiad gan Bobol

9.6.1 Mae ceyrydd a’r tai crynion ar ben rhai o fryniau’r AHNE megis Yr Eifl, Garn Fadrun, Garn Boduan a Garn Fawr wedi cadw yn rhyfeddol o ystyried eu bod yn ganrifoedd oed. Fodd bynnag mae dirywiad araf yn sgil treigl amser a phobol yn ymweld â’r safleoedd gan greu llwybrau a weithiau symud neu ansefydlogi cerrig. Rhaid bod yn ofalus o ran annog pobol i ymweld â safleoedd hanesyddol cynnar rhag ofn cynyddu pwysedd o’r math yma.

### 9.7 Difrod Damweiniol

9.7.1 Weithiau mae olion hanesyddol neu archeolegol yn cael eu difrodi yn ddamweiniol oherwydd diffyg gwybodaeth am eu bodolaeth. Gall hyn ddigwydd yn sgil gwaith cloddio, adeiladu neu waith cynnal e.e. cerrig milltir yn cael eu taro gan beiriannau barbio lonydd.

9.7.2 Mae’r sefyllfa o ran hyn wedi gwella yn ddiweddar fel mae pobol yn fwy ymwybodol o’r olion a henebion - e.e. ffermwyr yn cael gwybodaeth trwy gynlluniau amaeth amgylcheddol. Mae lle i barhau a gwaith codi ymwybyddiaeth trwy wahanol ddulliau fel sgyrsiau, taflenni gwybodaeth (fel yr un a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd) a thrafod gyda perchnogion a rheolwyr eiddo.

### 9.8 Creiriau Lleol wedi Gadael yr Ardal

9.8.1 Yn y gorffennol mae rhai creiriau wedi eu cario o’r ardal i gael eu cadw a’u harddangos mewn amgueddfeydd. Er yn deall fod rhai creiriau pwysig angen eu gwarchod a bod ar gael i’w gweld yn genedlaethol mae lle i gadw ac arddangos rhai o’r creiriau hyn yn lleol gan eu bod yn rhan o’r dreftadaeth. Gallai’r Amgueddfa Forwrol gartrefu rhai o’r rhain ond does dim amgueddfa arall pwrpasol i Lŷn.

9.8.2 Enghreifftiau o greiriau sydd wedi gadael yr ardal ydi Coron Brenin Enlli (Amgueddfa Forwrol Lerpwl), Broetsh Efydd o Dre’r Ceiri (Amgueddfa Genedlaethol Cymru), a chrochenwaith a chelfi o’r Oes Efydd ac Oes y Cerrig.

### 9.9 Erydiad Arfordirol

9.9.1 Mae erydiad sylweddol yn digwydd ar rai rhannau o arfordir yr AHNE ac mae hyn yn fygythiad i rai safleoedd o bwysigrwydd sy’n rhan o’r amgylchedd hanesyddol. Y rhannau gwaddodol o’r tir sydd yn erydu fwyaf ac mae tir

amaethyddol a rhai hen derfynau wedi eu colli mewn rhai ardaloedd ar yr arfordir gogleddol a deheuol.

9.9.2 Dwy safleoedd bwysig sy'n cael ei heffeithio gan erydiad morol yw'r olion y gaer Bentir ar drwyn Porthdinllaen a gweddillion hen wersyll ymarfer Ail Ryfel Byd ym Mhorth Neigwl. Mae prosiect diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Archaeoleg (Achub Archaeoleg Llŷn) wedi adnabod safleoedd mewn perygl ac wedi bod yn archwilio a chofnodi tra bod yn bosibl gwneud hynny e.e Porthdinllaen. Mae'n bwysig parhau â'r math hwn o waith ar safleoedd pwysig cyn i'r olion hyn gael eu colli am byth.

## 9.10 Newid Hinsawdd

9.10.1 Mae tystiolaeth yn dangos fod newid araf o ran hinsawdd y byd ac mae rhai tueddiadau lleol i'w gweld sef gaeafau mwyn ond gyda chyfnodau hir o law, (e.e. 2015-6), cyfnodau byr o law trwm iawn a hafau mwy ansefydlog. Gall hinsawdd o'r math hwn fod yn niweidiol trwy greu llifogydd a all fygwth adeiladau hanesyddol a thamprwydd sydd eto yn niweidiol i hen adeiladau a strwythurau. Rhagwelir y bydd hyn, mewn cyfuniad gydag erydiad arfordirol, yn broblem yn y dyfodol i eiddo arfordirol fel Porthdinllaen.

## 9.11 Datblygiadau Amaethyddol

9.11.1 Yn y gorffennol mae datblygiadau yn gysylltiedig ag amaeth wedi cael dylanwad sylweddol ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Yn sgil y pwyslais ar gynhyrchu bwydydd yn ystod yr 1960 – 80au gwnaed llawer o waith i uno caeau, lledu adwyon hanesyddol ac ati. Arweiniodd hyn at golli rhai nodweddion hanesyddol fel terfynau caeau. Fodd bynnag o ddiwedd y 1980a ymlaen gwelwyd pwyslais ar gadw ac ail-sefydlu nodweddion hanesyddol trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

## 9.12 Adeiladau a Strwythurau Newydd

9.12.1 Mae gan adeiladau a strwythurau newydd, yn cynnwys gwelliannau ffyrdd y posibilrwydd o amharu ar olion archeolegol a hanesyddol a chymeriad hanesyddol y tirlun yn gyffredinol. Mae'n bwysig felly osgoi datblygu ar safleoedd lle mae olion hanesyddol pwysig ac i wneud archwiliadau os oes diffyg gwybodaeth. Hefyd mewn rhai achosion bydd angen ymgymryd â mesurau i gyfyngu ar effeithiau archeolegol neu gynllun gwella lle bydd ardrawiad ar safleoedd archeolegol. Gall Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd roi arweiniad ar hyn drwy'r drefn cynllunio.

## 9.13 Addasiadau i Adeiladau Hanesyddol a Thraddodiadol

9.13.1 Mae'n bwysig fod adeiladau hanesyddol yn parhau i gael eu defnyddio – bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw at y dyfodol. Rhaid derbyn fodd bynnag y bydd addasu rhai adeiladau er mwyn defnyddiau newydd neu ar gyfer eu gwneud yn fwy ymarferol at ddefnydd modern.

9.13.2 Dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer o geisiadau cynllunio wedi eu derbyn ar gyfer trosi adeiladau hanesyddol at ddefnydd anheddol – adeiladu fel capeli, eglwysi, hen ysgolion, adeiladau amaethyddol ayb. Mae rhai cynlluniau wedi llwyddo i gynnal cymeriad yr adeilad gwreiddiol yn dda ond nid yw hyn yn wir am bob achos. Y prif broblemau a welir yw estyniadau ddim yn gweddu a deunyddiau anaddas. Er mwyn ailddefnyddio neu addasu adeiladau hanesyddol yn effeithiol rhaid gweithredu polisïau cynllunio yn effeithiol a dilyn ymarfer da o ran dylunio a deunyddiau (e.e. cyhoeddiadau gan Cadw). Gallai canllawiau dylunio penodol ar gyfer ardal Llŷn fod o gymorth hefyd.

## 9.14 Cynnal a Chadw

9.14.1 Mae cyflwr rhai adnoddau hanesyddol wedi dirywio yn yr ardal oherwydd nad yw perchnogion yn eu cynnal. Gall hyn fod oherwydd diffyg arian i wario neu nad yw'r adeiladau yn cael eu defnyddio bellach – e.e. adeiladau amaethyddol, capeli ac eglwysi.

9.14.2 Ar adegau mae gwaith is-safonol neu anghywir yn cael ei wneud hefyd. Enghraifft o'r math hwn o beth yw gwaith cynnal diofal ac anghywir ar adeiladau e.e. sment yn lle mortar calch a gosod ffenestri neu ddrysau o batrwm anaddas. Yma mae angen codi ymwybyddiaeth, gwella sgiliau ac annog perchnogion i gynnal cymeriad adeiladau hanesyddol yn y dull cywir. Yn hyn o beth gall cymorthdaliadau fod o gymorth e.e. trwy Glastir neu Cadw yn bennaf mae dipyn o waith gweinyddol ynghlwm ag ymgeisio yn ogystal ag amodau os yn llwyddiannus.

9.14.2 Gall diffyg cynnal a chadw fod yn ffactor sydd yn effeithio ar dir cyhoeddus yn ogystal – tiroedd fel ymylon ffyrdd, parciau a thir glas arall. Hefyd mae hyn yn gallu bod yn broblem ar strydoedd a phalmentydd oherwydd cyflwr y ffordd, arwyddion gormodol neu ddi-angen gorsafoedd bysiau blêr ac ati. Mae adroddiad ar Ardaloedd Cadwraeth Llŷn a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth AHNE yn 2015 wedi adnabod nifer o enghreifftiau o'r math hwn o beth ym mhentrefi'r ardal.

## 9.15 Mân Addasiadau Modern yn Amharu ar Ardaloedd Cadwraeth

9.15.1 Mae Astudiaeth a nodir uchod hefyd wedi dangos fod cyfres o fân ddatblygiadau wedi dirywio cymeriad Ardaloedd Cadwraeth yr ardal dros amser. Y math o bethau sy'n cael sylw yn yr astudiaeth yw renderau anaddas, drysau a ffenestri o ddyluniad neu a/neu ddeunydd anaddas, dysglau lloeren ar wyneb blaen, paneli solar, waliau terfyn ddim yn gweddu ac ati. Mae'r Astudiaeth yn argymell cyfres o weithredoedd yn cynnwys gwaith uniongyrchol ar rai adeiladau a safleoedd penodol yn yr Ardaloedd Cadwraeth a hefyd cydweithio gyda thrigolion a chymunedau i lunio Arweinlyfr o Ddyluniad Da.

## 9.16 Grantiau a Phrosiectau

9.16.1 Ar nodyn positif mae rhai nifer o brosiectau cadwraethol gan sefydliadau lleol yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod o fudd i'r Amgylchedd Hanesyddol yn

Llŷn. Dyma restr o'r rai ohonynt:

- Prosiect cofnodi ac adfer ffynhonnau - Gwasanaeth AHNE a Cadw Cymru'n Daclus
- Prosiect Arwyddion Pentref ac Arwyddbyst Hanesyddol - Gwasanaeth AHNE
- Bryngaer Meillionnydd, Rhiw - cloddio ac ymchwil - Prifysgol Bangor
- Bryngaerau Oes yr Haearn - gwaith dehongli - Partneriaeth Tirlun Llŷn
- Adeiladau crefyddol - nifer wedi cael eu hadfer a'u gwella efo grantiau gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn a'r Loteri Treftadaeth e.e. Capel Salem Sarn, Capel Plas Carmel, Aberdaron.

9.16.2 Mae grantiau ar gael trwy Cadw, y Loteri Dreftadaeth, Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a chynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Glastir ar gyfer cynnal, adfer ac atgyweirio elfennau o'r amgylchedd hanesyddol.

**<u>Polisïau</u>**

**HP 1. ADNABOD, COFNODI AC ASESU CYFLWR ADNODDAU HANESYDDOL YR ARDAL.**

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ystod eang o adnoddau hanesyddol sydd yn Llŷn ac hefyd i wneud gwaith ymchwil i gadarnhau ein gwybodaeth am y gorffennol. Bydd pwyslais felly yn cael ei roi ar adnabod a diffinio elfennau o'r amgylchedd hanesyddol a chofnodi yr asedau hynny drwy waith ymchwil a phrosiectau eraill megis casgliadau lluniau, cynnal bas data a chadw cofnodion. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos olion dan fygythiad o ddirywiad neu erydiad. Hefyd mae'n bwysig cofnodi cyflwr yr adnoddau hanesyddol yn cynnwys olion archeolegol, ffurfiau ar y tirlun, adeiladau a strwythurau. Bydd hyn yn ffurfio bas data o wybodaeth ac yn caniatáu i adnabod elfennau sydd yn dirywio neu dan fygythiad.

**HP 2. GWARCHOD A CHYNNAL NODWEDDION HANESYDDOL YN CYNNWYS OLION ARCHEOLEGOL A STRWYTHURAU AC ADEILADAU HANESYDDOL A'U GOSODIAD.**

Mae'r olion archeolegol a hanesyddol yn rhan greiddiol o'r amgylchedd hanesyddol a rhoddir pwyslais ar gynnal a chadwraeth yr amgylchedd hanesyddol a gosodiad henebion pwysig. Bydd cronfeydd gwybodaeth, ymchwil ac asesiadau yn rhoi gwybodaeth am adnoddau a chyfleon. Bwriedir cydweithio ar brosiectau yn uniongyrchol a chefnogi prosiectau a gweithredoedd gan eraill fydd yn llesol. Bydd angen sicrhau fod perchnogion yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael hefyd mewn ffurf cyngor a grantiau.

**HP 3. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU NEWYDD AC ADDASIADAU YN PARCHU AC ATGYFNERTHU CYMERIAD AC EDRYCHIAD ADEILADAU A STRWYTHURAU HANESYDDOL A HYRWYDDO YMARFER DA O RAN CYNNAL A CHADW.**

Y bwriad gyda'r polisi hwn yw fod datblygiadau newydd ac addasiadau yn cynnal a gwella cymeriad adeiladau a strwythurau hanesyddol. Bydd polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn allweddol bwysig yn hyn o beth. Yn ogystal rhoddir pwyslais ar sicrhau fodd adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal yn y modd gorau drwy ddefnyddio technegau a deunyddiau addas. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen cydweithio ac eraill i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymarfer da.

**HP 4. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMHARU AR GYMERIAD AC EDRYCHIAD ARDALOEDD CADWRAETH A CHEFNOGI MENTRAU I WNEUD GWELLIANNAU.**

Mae llu o fân ddatblygiadau wedi amharu ar gymeriad Ardaloedd Cadwraeth ym mhentrefi'r ardal. Bwriad y polisi hwn yw ceisio gwrthsefyll datblygiadau o'r math yma a hyrwyddo prosiectau a gweithredoedd fydd yn cynnal ac adfer yr Ardaloedd. Mae Adroddiad a gomisiynwyd gan y gwasanaeth AHNE yn 2015 yn darparu gwybodaeth am gamau llesol ac yn argymell cydweithio i baratoi canllawiau o ymarfer da ymysg mesurau eraill.

**HP 5. CODI YMWYBYDDIAETH A HYRWYDDO DEALLTWRIAETH O AMGYLCHEDD HANESYDDOL YR ARDAL YMYSG FFERMWYR, PERCHNOGION EIDDO, POBOL LEOL, PLANT AC YMWELWYR I'R ARDAL**

Bydd codi ymwybyddiaeth yn fodd i ennyn diddordeb a dealltwriaeth am wahanol elfennau o'r amgylchedd hanesyddol – mae hyn yn bwysig i'r cymunedau lleol a gall ychwanegu gwerth at y diwydiant twristiaeth ond rhaid bod yn ofalus rhag creu pwysedd gormodol ar adnoddau. Bwriedir cefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth cyffredinol ond mae lle i gysylltu yn fwy uniongyrchol gyda rhai all gael dylanwad uniongyrchol ar adnoddau hanesyddol fel ffermwyr, perchnogion tir ac eiddo a thenantiaid.

**HP 6. HYRWYDDO GWELL MYNEDIAD AT ADNODDAU HANESYDDOL LLEOL A MWYNHAD OHONYNT.**

Bwriad y polisi hwn yw hyrwyddo gwell mynediad at adnoddau hanesyddol er budd pobol leol ac ymwelwyr. Eisoes mae rhai prosiectau wedi eu gwireddu trwy'r Gwasanaeth AHNE a sefydliadau eraill fel Phartneriaeth Tirlun Llŷn ac aelodau yr Ecoamgueddfa. Yn y cyd-destun hwn efallai fod cyfle i ymchwilio i'r cyfleon o ran dychwelyd rhai olion hanesyddol er mwyn eu harddangos yn lleol.